# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 09/02/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Sharon Williams | Carys Roberts |
| Alaw Llewelyn Roberts | Rhys Llewelyn | Rhys Tudur | Mared Llywelyn Williams | Lleucu Jones |
| Caren Jones | Janice Evans | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Guto Williams, Gwynfor Jones, Cai Rees Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Dim

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 12/01/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir
   Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Rhys Llewelyn

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Bin Sbwriel Edern – Caren Jones**
   Mae'r bin sbwriel oedd wrth y bont yn Edern wedi cael ei falu ac mae Cyngor Gwynedd wedi ei dynnu lawr, hwn oedd yr unig fin yn Edern ac felly mae angen un arall. Mae yna ddipyn o faw ci yn cael ei roi yn y bin yma ac er fod yna finiau pwrpasol ar gyfer baw ci mae modd rhoi baw ci yn y biniau cyffredin hefyd.
   Penderfyniad: Rhys Tudur i ofyn i'w dad yr aelod lleol i ofyn i Cyngor Gwynedd am y biniau gan fod yna bosibilrwydd y buasai ef yn gallu eu cael am ddim. Os nad yw ef yn gallu cael biniau newydd yna y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i archebu un bin.
   Cynnig: Sharon Williams  Eilio: Arfon Hughes

5. **Cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu deddfwriaethau pwrpasol i reoli ail gartrefi –** Rhys Tudur
   Cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu deddfwriaethau pwrpasol i reoli ail gartrefi yw hwn sef cyfreithiau sy'n ymdebygu i deddfwriaethau 'Lex Weber' a 'Lex Koller' sy'n weithredol yn y Swistir. Mae gan Swistir reolaeth gadarn ar dai hâf i sicrhau bod y twristiaeth a geir yno yn gynaliadwy ac ddim yn cael effaith andwyol ar gymunedau. Mae'r cyfreithiau uchod wedi galluogi siroedd yn y Swistir i ddefnyddio eu disgresiwn i roi cyfyngiadau ar dai hâf. Ceir amrywiaeth o gyfyngiadau sydd fel a ganlyn:
   - mewn rhai Cantons (siroedd) ni cheir ond tai i bobl leol
   - mewn rhai eraill ni chaiff tŷ 'detached' gael ei brynu fel ail gartref.
   - mae gan rai cymunedau gap ar nifer yr ail gartrefi.

   Y pryder sy'n bodoli gyda'r ymgyrch ail gartrefi yw ein bod yn pwyso ar y Llywodraeth i wneud y newidiadau ond nad oes yna amcan glir o sut fath o newidiadau yr ydym yn gofyn amdanynt. 'Rydym wedi anfon pecyn o fesurau yr ydym eisiau iddynt eu cyflawni ond dim byd o ran sut fath o

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

ddeddfwriaeth y dylia ni fod yn edrych arno ac felly ein bod yn creu deddfwriaeth y buasai yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n ardaloedd ni sy'n gwneud yn siwr fod pobol lleol yn cael cadw'r tai.
Penderfyniad: pasiwyd y cynnig.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Rhys Llewelyn
Penderfynwyd hefyd i'w ddwyn i sylw'r wasg.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Mared Llywelyn Williams

6. **Cynnig ymchwil manwl i fonitro effaith ail gartrefi ar gymunedau–** Rhys Tudur – Diweddariad
Cafwyd diweddariad gan Rhys Tudur. Yn dilyn y penderfyniad ym mhwyllgor diwethaf mae Rhys wedi siarad hefo Aled Evans, aelod lleol Chwilog a Llanystumdwy ar Gyngor Gwynedd ac sydd wedi bod yn ymwneud hefo asesiadau ieithyddol Cyngor Gwynedd pan maent yn edrych ar geisiadau cynllunio. Mae Aled wedi gyrru sawl linc i Rhys ar e-bost ond nid yw wedi cael amser i edrych arnynt eto ac mae o hefyd wedi cyfeirio Rhys at unigolion eraill a fuasai'n gallu helpu. Mae angen dwyn ymwybyddiaeth pobol at y ffaith na'r datblygwr sydd yn talu am y datganiad ieithyddol pan mae'n rhoi cais cynllunio i fewn sydd yn gwbwl annerbyniol, dyliai Cyngor Gwynedd fod yn gwneud yr asesiadau yma yn drylwyr neu bod corff annibynnol yn eu gwneud. Unwaith y bydd Rhys wedi gwneud mwy o ymchwil i'r mater yna buasai rhan o'r cynnig gan CTN yn gallu galw am asesiadau annibynnol arbennigol fel nad yw'r datblygwr yn dylanwadu ar yr aseswyr. Cafwyd gwybodaeth hefyd gan Mared Llywelyn Williams fod rhywun yn gwneud doethuriaeth ar y mater ym Mhrifysgol Bangor ac efallai y buasai'n gallu cyfrannu rhywbeth ychwanegol, felly gofynwyd i Mared geisio cael hyd i'r person yma.
Penderfyniad: agenda mis nesaf.

7. **Ail afael yn y cysylltiad rhwng Nefyn a Phorth Madryn ar gais o'r Wladfa** – Rhys Llewelyn
Mae Rhisiart Arwel o Gaerdydd wedi cysylltu yn dweud fod na ferch o'r enw Any o Borth Madryn eisiau ail sefydlu y cysylltiad sydd rhwng Nefyn a Porth Madryn, bu iddynt gefeillio ym 1988 ac nid oes llawer wedi digwydd ers hynny. Mae dynas o'r enw Silvina Garzonio Jones sydd yn byw ym Mhorth Madryn ac yn gyn ddisgybl i Rhys Llewelyn pan oedd yn dysgu yno wedi gyrru neges yn gofyn os fuasai'n bosibl cael sgwrs zoom hefo criw o Borth Madryn am 5yh nos Wener ac mae Lilianna Evans merch o'r wladfa sydd wedi bod yn byw yn Nefyn ond yn byw yn Aberdaron rwan wedi cytuno i gyfieithu. Mae Rhys Llewelyn am wneud cyflwyniad o luniau o'r ardal ar gyfer y sgwrs ac hefyd mae o wedi cysylltu gyda Ysgol Nefyn, Morfa ac Edern yn gofyn os oedd y plant eisiau gwneud lluniau o'u hoff adeiladau yn yr ardal i'w cynnwys yn y cyflwyniad. Er gwybodaeth 'roedd Cymdeithas Cymru'r Ariannin yng Nghymru i fod i ddod i Nefyn y flwyddyn diwethaf ar gyfer Gwyl y Glaniad ym mis Gorffennaf ac ar yr un diwrnod a Gwyl Cwrw Llŷn ond yn anffodus mae hi wedi cael ei gohirio ar gyfer rhywbryd yn y dyfodol. Mae cynnig i unrhyw un fod yn rhan o'r cyfarfod ac i adael i Rhys Llewelyn neu Catrin Roberts wybod ymlaenllaw.

8. **Meinciau –** Gruffydd Williams
Cafwyd diweddariad gan Arfon Hughes yn dweud ei fod wedi e-bostio Cai Rees Jones ar ôl iddo fod yn siarad hefo Carys Roberts yn gofyn os oes yna arian ar gael i rhoi y meinciau yn ôl ar y Gôf Golofn yn Nefyn ac hefyd rhoi mainc yn ôl ym Mhenbryn Glas. Cafwyd gwybodaeth gan Gruffydd Williams fod y fainc ym Mhenbryn Glas wedi cael ei thrwsio a'i fod yn disgwyl gwybodaeth yn ôl gan Alys ynglyn a'r meinciau ar y Gôf Golofn fel rhan o'r prosiect gwella canol trefi.

Cafodd Catrin Roberts neges gan Cai Rees Jones yn dweud mai dim on un fainc fedra nhw ariannu allan o'r prosiect oedd o ynghlwm hefo a'i fod wedi trefnu i'r fainc wrth y Gôf Golofn gael ei thrwsio. Gan fod dwy fainc wrth y Gôf Golofn fe fydd rhaid i CTN drefnu bod y llall yn cael ei thrwsio felly gan fod y ddwy wrth ymyl eu gilydd. Mae angen edrych i fewn i gael asesiad risc iechyd a diogelwch i roi y meinciau nôl ar y Gôf Golofn gan ei bod yng nghanol y ffordd.
Mae Gruffydd Williams wedi bod o amgylch y 32 meinciau yn Nefyn a cafwyd diweddariad ar eu cyflwr gyda cyfanswm o 12 angen gwaith arnynt.
Mae Janice Evans wedi cytuno i fynd o amgylch meinciau Morfa Nefyn.
Mae Caren Jones wedi bod o amgylch meinciau Edern ac mae yna ddwy fainc sydd ar y Groesffordd yn Edern mewn cyflwr ofnadwy ac angen eu trwsio.
Penderfyniad: agenda mis nesaf.

9. **Bryn Mynach – gorffen y gwaith trac bmx & agor y ffôs –** Gruffydd Williams
Gweler isod – Pwyllgor Bryn Mynach i aros ar ôl ar y diwedd.

10. **Mynwent Morfa Nefyn –** Clerc
Yn dilyn e-bost i Grwp Cynefin ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus cafwyd ymateb ganddynt yn dweud eu bod wedi gwneud gwelliannau i'r llwybr nôl yn 2018 a bod y gwelliannau yma wedi cael eu trafod gyda Cyngor Gwynedd. Gan fod y Cynghorydd lleol mewn trafodaethau gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn penderfynwyd gofyn iddo os oes diweddariad erbyn pwyllgor mis Mawrth.
Ynglŷn â'r mater o ddiffyg lle i gladdu ymhen chydig o flynyddoedd penderfynwyd cael cyfarfod safle i drafod y ffordd ymlaen gan fod y tir sydd yn ffinio'r fynwent yn ofnadwy o wlyb gan fod pwll yno.
Penderfyniad: agenda mis Mawrth.

11. **Mynwent Nefyn –** cwyn gan aelod o'r cyhoedd am faw ci & Gruffydd Williams baw ci yn gyffredinnol.
Cafwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn dweud fod dipyn o faw ci yn mynwent Nefyn oherwydd fod pobol sydd yn ymweld a'r fynwent yn gollwng eu cŵn a bod y cŵn wedyn yn gwneud eu busnes ym mhob man ac a fuasai'n bosibl rhoi arwyddion i fyny i rybuddio pobol i beidio a gadael i hyn ddigwydd. Cytunwyd fod angen arwyddion i fyny ond yn hytrach na arwyddion yn dweud wrth y perchnogion i godi'r baw ci fyny arwyddion yn dweud wrthynt i gadw eu cŵn ar dennyn gan y buasai'n hynny yn rybudd cryfach oherwydd nad yw cŵn i fod yn rhydd mewn mynwent.
Penderfyniad: y clerc i archebu yr arwyddion gan Designer Signs.
Cynnig: Sharon Williams Eilio: Mared Llywelyn Williams
Mae Gruffydd Williams wedi bod yn cael trafodaeth ynglŷn â'r mater baw ci sydd yn broblem enfawr ym mhob pentref erbyn hyn. Un warden cŵn sydd gan Cyngor Gwynedd o Aberdesach i Aberdyfi a tri warden sydd drwy Wynedd i gyd i ddelio hefo baw cŵn a dylestwyddau eraill. Tybed fyddai modd i'r Cynghorau Cymuned/Tref gyd gyflogi rhywun i fynd o gwmpas ein cymunedau yn ceisio dal y perchnogion yma sydd ddim yn codi baw eu cŵn ac y byddai'r ymwybyddiaeth bod yna rhywun yn mynd o amgylch yn cadw llygaid yn ddigon i wneud i bobol feddwl ddwywaith a codi'r baw i fyny.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Tref Pwllheli, Cyngor Cymuned Llanbedrog a Cyngor Cymuned Llanengan i weld os oes diddordeb ganddynt i gyflogi rhywun i ddelio hefo'r broblem baw ci.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Carys Roberts

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

**12. Gweplyfr CTN**
Ar ôl trafodaeth ar y mater penderfynwyd peidio creu cyfrif gweplyfr Cyngor Tref Nefyn.

**13. Coed ger Ysgol Edern –** e-bost gan Adran Tai ac Eiddo
Derbyniwyd e-bost gan yr Archwiliwr Adeiladau Cynnal a Cadw Cyngor Gwynedd ynglŷn â coed ger Ysgol Edern yn dweud fod arolygon cyflwr coed wedi eu gwneud yn ddiweddar ar goed yn ein hardal ni i geisio adnabod os oes afiechyd 'ash dieback' ar y coed onnen ac mae'r tair sydd ar y llecyn tir wrth ymyl Ysgol Edern sydd ym mherchnogaeth Cyngor Tref Nefyn hefo'r cyflwr yma ac angen eu torri lawr cyn gynted a bo'r modd. Mae Cyngor Gwynedd wedi cael amcanbris i CTN gan gontractwr profiadol ond nid oes rheidrwydd iddynt dderbyn yr amcanbris yma ac maent yn rhydd i fynd ar ôl contractwyr lleol os y dymunent.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo dau gontractwr lleol i gael amcanbris.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

**14. Diwrnod gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a Rheng Flaen 5^ed^ Gorffennaf 2021** – e-bost Un Llais Cymru dyddiedig 4/1/2021
Cafwyd e-bost gan Un Llais Cymru yn annog Cynghorau Cymuned/Tref i gymeryd rhan yn Niwrnod Gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol â'r Rheng Flaen ar y 5^ed^ o Orffennaf 2021 a dathlu hefo rhaglen o ddigwyddiadau sydd yn mynd ymlaen drwy'r dydd. Mae'r diwrnod yma hefyd yn cael ei ddefnyddio i godi arian tuag at 'NHS Charities Together' â'r Gymdeithas Gofal Genedlaethol ac mae angen i bawb sydd eisiau cymeryd rhan gofrestru eu bwriad i wneud ar y wefan www.nhsfrontlineday.org.
Penderfyniad: y clerc i ffendio allan erbyn pa bryd sydd eisiau cofrestru a cael mwy o wybodaeth arno, y cadeirydd i rannu'r e-bost eto er mwyn i'r aelodau gael cyfle i edrych i fewn i'r digwyddiad a gwneud penderfyniad a'i roi ar agenda mis nesaf.

**15. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Cyngor Cymuned Llanengan (copi wedi ei anfon I bawb ar y 14/12/2020) –** Tlodi Digidol
  Penderfyniad: cynnig rhoi menthyg y cyfrifiaduron sydd yn Siop Siarad iddynt.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes
- **Cylch Meithrin Edern (wedi ei atodi) –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £300.00
  Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Caren Jones
- **Urdd Gobaith Cymru –** cyfarniad ariannol
  Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad
- **Ffermwyr Ifanc Eryri –** cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad
- **Dawns i bawb –** cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad.
- **Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen –** cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: gofyn eto am y fantolen ariannol erbyn pwyllgor mis Mawrth.

**16. Ceisiadau Cynllunio**

- **APP/Q6810/A/21/3266774** - Apêl Cynllunio – Eglwys Santes Mair, Lôn yr Eglwys, Morfa Nefyn – Datblygiad preswyl gan gynnwys 6 annedd, mynedfa a gwaith cysylltiedig – Penderfyniad: ychwanegu amod y lôn a brawddeg ar y diwedd yn dweud ei fod yn gwbwl groes i bolisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol.
- **C21/0064/42/LL** – Iard Glo, Lôn Gerddi, Edern – Cais llawn i godi ty newydd. – Penderfyniad: dim gwrthwynebiad.
- **C21/0060/42/LL** – Bradford House, Stryd Fawr, Nefyn – newid defnydd llawr gwaelod o siop trin gwallt i ddefnydd anheddol - Penderfyniad: dim gwrthwynebiad.

**Ceisiadau Diweddarach**

**17. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £935.24
- Designer Signs – Baner 'Diolch' Morfa - £60.00
- Chris Jones – gosod y 3 goeden nadolig, eu tynnu i lawr a cael gwared ohonynt - £1440.00
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau a pensiwn – chwarter i 30/06/2020 - £125.40
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau a pensiwn – chwarter i 30/09/2020 - £125.40
- John Gwynfor Jones – angladd Richard Elwyn Dobson - £480.00
- John Gwynfor Jones – angladd Charles Thomas Morgan - £70.00
- D.M. Parry – 6$^{ed}$ taliad Mynwent Nefyn - £850.00 & 6$^{ed}$ taliad Mynwent Morfa Nefyn - £170.00 = £1020.00
- Cliff Hughes – Taliad 9 contract llwybrau - £1558.33
- Npower – Trydan Llyfrgell Nefyn mis Ionawr - £143.67
  Penderfyniad: Talu pob anfoneb
  Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Llewelyn

**18. Taliadau wedi eu derbyn:**

- D. P. Thomas – angladd Peter Lewis Jones - £950.00
- Ifan Hughes – angladd Hannah Jones - £680.00
- Cyngor Gwynedd – Cynnal a Chadw Llwybrau - £2757.62
- Mantell Gwynedd – arian yn ôl - £6000.00

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**Eitem rhif 9 – Gorffen y gwaith trac bmx & agor y ffôs - Pwyllgor Bryn Mynach**

**Presennol**: Catrin Roberts (Cad), Arfon Hughes, Gruffydd Williams, Sharon Williams, Alaw Llewelyn Roberts, Lleucu Jones, Rhys Llewelyn, Carys Roberts, Pat Humphreys (clerc)

Yn dilyn y ffaith fod Bryn Ferguson wedi methu cwblhau y gwaith yn y contract oedd ganddo hefo CTN mae angen cael hyd i rhywun i orffen y gwaith sef gorffen y trac bmx a agor y ffôs.
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Penderfyniad: Gruffydd Williams i ofyn am bris gan Gareth Williams ac adrodd nôl i Pwyllgor Bryn Mynach.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Sharon Williams
Cafwyd cais hefyd gan Sharon Williams i gael arwyddion newydd i'r llwybr beics plant bach gan fod amryw ohonynt wedi cael eu malu, mae un yn beryglus iawn oherwydd fod darn haearn yn sdicio allan.
Penderfyniad: Gruffydd Williams i fynd i dynnu'r darn haearn i ffwrdd a'r clerc i archebu'r arwyddion gan Designer Signs.